Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amcangyfrifon o faich clefydau yn 2040, Cymru

Mai 2024

Yr Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth

Darparu tystiolaeth a chyngor ar gyfer y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran y Prif Gynghorydd Gwyddonol ar Iechyd

llyw.cymru

## Prif ganlyniadau

- Amcangyfrifir y bydd cyfran poblogaeth oedolion Cymru sy'n byw gyda salwch mawr yn cynyddu o bron i 1 o bob 6 yn 2019 i bron 1 o bob 5 erbyn 2040.
- Byddai hyn yn golygu y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda salwch mawr yng Nghymru, yn ôl yr amcangyfrif, yn cynyddu i 556,000 erbyn 2040; cynnydd o 137,000 sy'n fwy na thraean.[1]

## Cefndir

Nod y papur hwn yw amcangyfrif nifer y bobl sy'n byw gyda salwch mawr yng Nghymru yn 2030 a 2040 gan ddefnyddio'r amcanestyniadau a gynhyrchwyd gan Sefydliad Iechyd Lloegr. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar 20 o gyflyrau iechyd sydd i gyfrif am 65% o'r baich salwch yn Lloegr a phatrymau rhagamcanol afiechyd dros y ddau ddegawd nesaf gan ddefnyddio model epidemiolegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth bresennol ac effaith ffactorau risg allweddol – fel ysmygu ac alcohol.

Mae Sefydliad Iechyd Lloegr wedi cyhoeddi adroddiad; "Health in 2040: projected patterns of illness in England". Rhagwelir y bydd cyfran poblogaeth Lloegr sy'n byw gyda salwch mawr, bron i 1 o bob 6 o'r boblogaeth oedolion yn 2019, yn cyrraedd bron i 1 o bob 5 o'r boblogaeth oedolion erbyn 2040. Tybiwyd y byddai cyfran debyg o'r boblogaeth yng Nghymru yn byw gyda salwch hirdymor.

Cyhoeddwyd Lawrlwythiadau Cysylltiedig fel rhan o'r adroddiad a gellir eu cyrchu'n is i lawr y dudalen lle ceir dolen i'r uchod. Mae un o'r lawrlwythiadau hynny ("Insight report datasheet") yn darparu data sy'n benodol i Loegr ar nifer yr oedolion (20 oed neu hŷn) sy'n byw gyda salwch mawr yn 2019, 2030 a 2040 ac rydym yn eu defnyddio i amcangyfrif y ffigurau ar gyfer Cymru.

## Methodoleg

Cafwyd amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw gyda salwch mawr yn Lloegr o'r adroddiad "Health in 2040: projected patterns of illness in England":[1]

**Tabl 1: Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw gyda salwch mawr yn Lloegr, fesul grŵp oedran (yn 2019, 2030, a 2040)**

| Grŵp oedran | 2019 (gorffennol) | 2030 (rhagamcanol) | 2040 (rhagamcanol) |
|---|---|---|---|
| **20-69 oed** | 3,040,585 | 3,506,619 | 3,543,279 |
| **70 oed a hŷn** | 3,646,669 | 4,585,279 | 5,597,905 |
| **Cyfanswm (20 oed a hŷn)** | 6,687,254 | 8,091,898 | 9,141,183 |

*Ffynhonnell: Adroddiad Health in 2040 y Sefydliad Iechyd, eu Ffigur E2*

[1] Cyfrifwyd yr amcangyfrif hwn gan ddefnyddio adroddiad y Sefydliad Iechyd gan gymhwyso'r amcangyfrifon i Gymru gan ddefnyddio data poblogaeth Cyfrifiad 2021 ar gyfer oedolion (20 oed neu hŷn) yng Nghymru a ragwelir tan 2040. Health in 2040: projected patterns of illness in England - The Health Foundation

I gyfrifo canran y bobl â salwch mawr, defnyddiwyd amcangyfrifon/amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Amcangyfrifir bod canran y bobl â salwch mawr yn codi o 48.80% yn 2019 i 51.66% yn 2030 a 52.13% yn 2040 i bobl 70 oed a hŷn. Gwelir cynnydd mewn pobl 20-69 oed, ac amcangyfrifir y bydd y ganran â salwch mawr yn cynyddu o 8.52% yn 2019 i 9.82% yn 2030, ac i 10.32% yn 2040.

Gan ddefnyddio data poblogaeth[2] y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cawsom yr amcangyfrifon poblogaeth 2019 canlynol, ynghyd ag amcanestyniadau poblogaeth[3] hyd at 2030 a 2040 ar gyfer Lloegr: [4] :

**Tabl 2: Poblogaeth Lloegr, fesul grŵp oedran (yn 2019, 2030, a 2040)**

| Grŵp oedran | 2019 (gorffennol) | 2030 (rhagamcanol) | 2040 (rhagamcanol) |
|---|---:|---:|---:|
| **20-69 oed** | 35,701,918 | 35,713,684 | 34,339,800 |
| **70 oed a hŷn** | 7,472,456 | 8,875,368 | 10,738,243 |
| **Cyfanswm (20 oed a hŷn)** | 43,174,374 | 44,589,052 | 45,078,043 |

*Ffynhonnell: Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (amcanestyniadau yn seiliedig ar 2021)*

**Tabl 3: Canran y boblogaeth sy'n byw gyda salwch mawr, yn Lloegr, fesul grŵp oedran (yn 2019, 2030, a 2040)**

| Grŵp oedran | 2019 (gorffennol) | 2030 (rhagamcanol) | 2040 (rhagamcanol) |
|---|:---:|:---:|:---:|
| **20-69 oed** | 8.52% | 9.82% | 10.32% |
| **70 oed a hŷn** | 48.80% | 51.66% | 52.13% |
| **Cyfanswm (20 oed a hŷn)** | 15.49% | 18.15% | 20.28% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiadau yn seiliedig ar dabl 1 a 2.*

Yn yr un modd, mae’r ONS wedi paratoi amcangyfrifon poblogaeth ac amcanestyniadau ar gyfer Cymru[5]:

---

[2] Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU (llyw.cymru)
[3] Tabl cynnwys amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol – Swyddfa Ystadegau Gwladol
[4] Gwnaethom dybio bod Adroddiad y Sefydliad Iechyd wedi defnyddio'r amcanestyniadau'r ONS yn seiliedig ar 2020 ar gyfer data poblogaeth Lloegr, ac felly aethom ati i ddefnyddio'r un set yn ein cyfrifiadau.

[5] Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn ac oedran (llyw.cymru)

**Tabl 4: Poblogaeth Cymru, fesul grŵp oedran (yn 2019, 2030, a 2040)[6]**

| Grŵp oedran | 2019 (gorffennol) | 2030 (rhagamcanol) | 2040 (rhagamcanol) |
|---|---|---|---|
| **20-69 oed** | 1,926,857 | 2,058,427 | 2,093,521 |
| **70 oed a hŷn** | 471,395 | 555,113 | 652,101 |
| **Cyfanswm (20 oed a hŷn)** | 2,398,252 | 2,613,540 | 2,745,622 |

*Ffynhonnell: Poblogaeth StatsCymru (amcanestyniadau yn seiliedig ar 2021)*

## Canlyniadau

Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon poblogaeth a'r amcanestyniadau ar gyfer Cymru (Tabl 4), gallwn amcangyfrif nifer y bobl yng Nghymru a allai fod yn byw gyda salwch mawr yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod. Aethom ati i ddefnyddio’r canrannau poblogaeth yn Lloegr sy'n byw gyda salwch mawr yn y grwpiau oedran a ddarparwyd (Tabl 3) gan dybio bod yr un ganran yn berthnasol yng Nghymru: Er mwyn amcangyfrif nifer y bobl sy'n byw gyda salwch mawr yng Nghymru, cafodd canran y bobl sy'n byw gyda salwch mawr yn Lloegr ei luosi ag amcanestyniadau /amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Cymru yn y bandiau oedran "20-69" a "70 oed a hŷn," ar gyfer 2019, 2030 a 2040. Cafwyd y canlyniadau canlynol:

**Tabl 5: Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw gyda salwch mawr yng Nghymru, fesul grŵp oedran (yn 2019, 2030, a 2040)**

| Grŵp oedran | 2019 (gorffennol) | 2030 (rhagamcanol) | 2040 (rhagamcanol) |
|---|---|---|---|
| **20-69 oed** | 164,102 | 202,111 | 216,015 |
| **70 oed a hŷn** | 230,048 | 286,788 | 339,944 |
| **Cyfanswm (20 oed a hŷn)** | 394,150 | 488,899 | 555,959 |

*Ffynhonnell: Tablau 3 a 4*


**Tabl 6: Amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw gyda salwch mawr yng Nghymru, fesul grŵp oedran (yn 2019, 2030, a 2040)**

| Grŵp oedran | 2019 (gorffennol) | 2030 (rhagamcanol) | 2040 (rhagamcanol) |
|---|---|---|---|
| **20-69 oed** | 8.52% | 9.82% | 10.32% |
| **70 oed a hŷn** | 48.80% | 51.66% | 52.13% |
| **Cyfanswm (20 oed a hŷn)** | 16.43% | 18.71% | 20.25% |

*Ffynhonnell: Tablau 4 a 5*

[6] Mae gennym amcanestyniadau ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 2021. Mae'n well cyfrifo Cymru gan ddefnyddio amcanestyniadau diweddaraf Cymru, amcanestyniadau 2021.

**Ffigur 1: Canran y bobl 20 oed a hŷn sy'n byw gyda salwch mawr yn 2019, 2030 a 2040**




*Ffynhonnell: Tablau 3 a 5*

Oherwydd bod cyfran uwch o boblogaeth Cymru yn 70 oed a hŷn o gymharu â Lloegr, wrth bwysoli'r grwpiau oedran "20-69 oed" a "70 oed a hŷn," maen nhw wedi'u pwysoli mwy tuag at y grŵp oedran hŷn yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Oherwydd bod y grŵp oedran hŷn hwn yn cynnwys canran uwch o'r boblogaeth sydd â salwch mawr, mae hyn yn arwain at ganran cyffredinol uwch o bobl yng Nghymru sydd â salwch mawr sydd yn 20 oed a hŷn.

Amcangyfrifwyd bod cyfran poblogaeth oedolion Lloegr (o'r rhai 20 oed a hŷn) sy'n byw gyda salwch mawr yn bron i 1 o bob 6 o'r boblogaeth oedolion yn 2019 (15.5%) a rhagwelir y byddai'n cyrraedd bron i 1 o bob 5 o'r boblogaeth oedolion erbyn 2040 (20.3%). Mae'n bosibl gwneud datganiad cyfatebol i Gymru: amcangyfrifwyd bod poblogaeth oedolion Cymru (o'r rhai 20 oed a hŷn) sy'n byw gyda salwch mawr bron yn 1 o bob 6 o'r boblogaeth oedolion yn 2019 (16.4%) a rhagwelir y bydd yn cyrraedd bron i 1 o bob 5 o'r boblogaeth oedolion erbyn 2040 (20.3%).

## Trafodaeth

Amcangyfrifodd ein papur fod 488,899 a 555,959 o oedolion 20 oed a hŷn yn byw gyda salwch mawr yn y blynyddoedd 2030 a 2040 yn y drefn honno. Er mwyn gallu efelychu dadansoddiad o Adroddiad y Sefydliad Iechyd yng Nghymru, byddai angen i ni gael data o nifer neu ganran y boblogaeth yng Nghymru sy'n byw gyda'r 20 cyflwr iechyd a ddefnyddir yn amcangyfrifiad y Sefydliad Iechyd.

Yn Lloegr, gostyngodd cyfran y bobl a nododd iechyd gwael o 4.6% yn 2011 i 4.1% yn 2021, a gostyngodd canran y rhai a nododd iechyd gwael iawn o 1.4% yn 2011 i 1.2%

yn 2021. Yn y cyfamser, yng Nghymru, nododd tua 164,000 o bobl (5.1%) iechyd gwael yn 2021 (o gymharu â 6.0% yn 2011), a nododd tua 52,000 o bobl (1.6%) iechyd gwael iawn (o gymharu â 1.9% yn 2011). Mae gan Gymru ganran ychydig yn uwch o'r boblogaeth yn hunan-adrodd iechyd gwael/iechyd gwael iawn o gymharu â Lloegr. O ganlyniad, gall ein rhagamcanion fod yn geidwadol ac o bosibl gallent fod yn tanamcangyfrif yr heriau iechyd sy'n wynebu poblogaeth Cymru.[7]

Mae'n bosibl y bydd gan boblogaeth Cymru yn 2019 ail newidyn hefyd, ar wahân i oedran, sy'n effeithio ar ei baich salwch mawr o gymharu â Lloegr. Nid ydym wedi cymhwyso unrhyw addasiad yn ein cyfrifiadau i ganiatáu ar gyfer unrhyw wahaniaeth o'r fath. Gall hyn ein harwain i danamcangyfrif ein baich clefydau ar gyfer y flwyddyn hysbys 2019. Byddwch yn ymwybodol na fydd unrhyw newidyn ychwanegol sy'n berthnasol yn 2019 o bosibl yn berthnasol erbyn 2040.

### Y camau nesaf

Yn y dyfodol, gallem wneud ein gwaith modelu ein hunain i amcangyfrif nifer y bobl yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol a allai gael eu hystyried fel rhai â salwch mawr. Gallai hyn gynnwys (gyda chaniatâd neu drwy gydweithredu) efelychu'r dulliau a ddefnyddir yn adroddiad y Sefydliad Iechyd neu drwy gynnal ein gwaith modelu ein hunain yn fewnol.

[7] General health, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)